# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD GWENER, 23 EBRILL 2021 am 9:30 y. b. | | FRIDAY, 23 APRIL, 2021 at 9:30 a.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL | | VIRTUAL MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Margaret M. Roberts
Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 22)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhlaiwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 16 Chwefror, 2021
- 8 Mawrth, 2021

**3** **YMATEB Y CYNGOR I COVID-19** (Tudalennau 23 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr ynglyn â materion i'w dilyn i fyny ar gais y Pwyllgor.

**4** **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 33 - 38)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2021 (Cyfarfod Cyllideb)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard O. Jones, Bryan Owen, Alun Roberts, J. Arwel Roberts.<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, G.O. Jones, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts.<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid Gwasanaethau a'r Iaith Gymraeg) *(am ran o'r cyfarfod yn unig)* |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Nicola Roberts, Mr Dyfed Edwards (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Bethan Roberts (Archwilio Cymru), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |



DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd yr holl Aelodau a Swyddogion i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a fyddai'n ystyried y cynigion cychwynnol ar gyfer gosod y cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2021/22.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL**

Cyflwywyd a chadarnhawyd cofnodion blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir –

17 Tachwedd, 2020

10 Rhagfyr, 2020 (arbennig)

17 Rhagfyr, 2020 (arbennig)

**3 GOSOD CYLLIDEB 2020/21 (CYLLIDEB REFENIW)**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'w Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses gosod Cyllideb ar gyfer 2021/22 ynghyd â'r prif faterion a chwestiynau ar gyfer Sgriwtini wrth arfarnu cynigion cyllideb cychwynnol y Pwyllgor Gwaith gan gymryd i ystyriaeth y prif negeseuon o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y dogfennau a ganlyn ynghlwm i'r adroddiad -

**3.1 Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb refeniw 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Ionawr 2020 ac a oedd yn cynnwys datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â chynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith; setliad amodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol; y sefyllfa gychwynnol ar gyfer cyllideb 2021/22; y Dreth Gyngor; cronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor; cynigion ar gyfer arbedion; pwysau ar y gyllideb; risgiau a'r effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol.**

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad cyllideb a'r cynigion cyllideb drwy ddweud y deuant ar ddiwedd blwyddyn o heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen. Mae'n rhaid i'r Cyngor gydbwyso ei ddyhead i gadw cynnydd yn y Dreth Gyngor mor isel â phosib gyda'r angen i ymgorffori gwydnwch yn ei gyllideb mewn parodrwydd ar gyfer heriau yn y dyfodol. Roedd yn cydnabod bod y Dreth Gyngor yn fater cynhennus gan fod disgwyl i'r dreth godi bob blwyddyn; yn bersonol roedd yn credu ei bod yn system annheg ac amhriodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Ond, oherwydd i Ynys Môn dderbyn setliad amodol gwell na'r disgwyl ar gyfer 2021/22 gan Lywodraeth Cymru roedd yn bosib i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar sail cynnydd arfaethedig o 3.75% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22. Fodd bynnag, mae amseriad setliad Llywodraeth Cymru yn broblem o hyd ac mae'n ffordd anfoddhaol o ariannu cynghorau lleol ac ni fydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi tan 2 Mawrth 2021 - wythnos yn unig cyn y mae disgwyl i'r Cyngor gwblhau a gosod ei gyllideb ar gyfer 2021/22. Mae'r adroddiad cyllideb yn nodi nifer o ystyriaethau ar gyfer gosod cyllideb 2021/22 ac un o'r elfennau allweddol yw'r Contract Casglu Gwastraff a Glanhau Strydoedd newydd fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021. Mae cost y contract newydd yn sylweddol uwch na'r gyllideb bresennol ac ynddo'i hyn mae'n gyfystyr â chynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor. Hefyd, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi nodi'r angen i sicrhau cyflenwad o weithwyr sydd â chymwysterau a phrofiad addas ar gyfer y dyfodol fel maes blaenoriaeth ac mae'n awyddus i ailsefydlu'r Rhaglen Hyfforddi Broffesiynol i gynorthwyo i fynd i'r afael ag unrhyw brinder sgiliau posib y gallai'r Cyngor ei wynebu.

Cafwyd cyflwyniad gweledol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a oedd yn rhoi trosolwg a chyd-destun y gyllideb refeniw, a thynnodd sylw at y prif agweddau ac ystyriaethau a oedd yn effeithio ar lefel y Dreth Gyngor fel a ganlyn -

- Roedd y gyllideb gychwynnol ar gyfer 2021/22, ar sail y rhagamcan yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, yn rhagweld cynnydd o £6.680m yn seiliedig ar wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer cost uwch y Contract Gwastraff a Glanhau Strydoedd newydd, buddsoddi yng Ngwasanaeth TG y Cyngor, newidiadau mewn niferoedd disgyblion, chwyddiant, mwy o alw am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a phwysau ar Ofal Cymdeithasol Oedolion ac o ganlyniad, roedd cyfanswm y gyllideb ragamcanol ar gyfer 2021/22 yn £148.826m. Byddai'r cynnydd rhagamcanol o £6m yn golygu y byddai angen cynnydd o 4% yng Nghyllid Allanol Cyfun y Cyngor ac o leiaf 7% o gynnydd yn y Dreth Gyngor.

- Mae cyfanswm y Setliad Llywodraeth Leol amodol ar gyfer Ynys Môn am 2021/22 yn £104.825m (cynnydd o 3.4% o gymharu â chynnydd o 3.8% ar draws Cymru) ac mae'n cynnwys addasiad i sail y Dreth, y Grant Cyflogau Athrawon, a chyllid ychwanegol i gwrdd â chostau uwch. Diweddarwyd yr ystadegau poblogaeth a ddefnyddir yn y fformiwla cyllido ac o ganlyniad mae Ynys Môn wedi gweld gostyngiad yn y Cyllid Allanol Cyfun oherwydd bod y ffigyrau poblogaeth diwygiedig ar gyfer Ynys Môn yn is na'r rhagolwg blaenorol. Fodd bynnag, pe byddai'r Cyllid Allanol Cyfun wedi cynyddu yn unol â chwyddiant ers 2013/14, yna byddai Ynys Môn yn derbyn £115m o Gyllid Allanol Cyfun yn 2021/22 yn hytrach na'r £105m y mae wedi ei dderbyn. Oherwydd hynny, bu'n rhaid i'r Cyngor dorri gwasanaethau a chynnyddu'r Dreth Gyngor i gwrdd â'r diffyg yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae'r cynnig cyllideb terfynol ar gyfer 2021/22 (fel y nodir yn fanwl yn Nhabl 5 ym mharagraff 10.10 yr adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Ionawr) syn seiliedig ar y gyllideb ddisymud ar gyfer 2021/22 ac yn cymryd i ystyriaeth newidiadau ymrwymedig, costau staffio (yn amodol ar gadarnhau dyfarniadau cyflog sydd wedi cael ei nodi fel maes risg) a phwysau ychwanegol a nodwyd ar ffurf cyllido Rhaglen Hyfforddeion Proffesiynol; capasiti ychwanegol yn yr adran Gwarchod y Cyhoedd; Cynhwysiant Addysg; Cefnogaeth TG i Ysgolion, Rheoli Twristiaeth a Thaclo Newid Hinsawdd yn dod i gyfanswm o £147.706m. Mae addasiadau ar gyfer incwm ychwanegol drwy gynyddu ffioedd meysydd parcio, peidio â chodi prisiau cinio ysgol, cyllideb y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn dod â chyfanswm Cyllideb arfaethedig y Cyngor i £147.531 gyda £104.825m yn cael ei gyllido gan y Cyllid Allanol Cyfun sydd yn gadael £42.706m i gael ei gyllido gan y Dreth Gyngor. Daw cyfanswm Cyllideb Dreth Gyngor 2020/21 wedi ei addasu ar gyfer newid yn sail y dreth i £41.162m sy'n golygu bod y bwlch cyllido (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor) yn £1.544m.
- Mae cynnydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor yn cwrdd â'r diffyg ac yn rhoi cyllideb gytbwys.
- Yn 2020/21 roedd gan y Cyngor Gronfeydd wrth Gefn Cyffredinol o £7.060m sy'n cyfateb i 4.97% o'i Gyllideb Refeniw net (£142.146m) - roedd hyn yn uwch na'r swm yn 2019/20 (£5.912m) ond yn is na'r uchafswm o £8.886m yn 2016/17. Mae Cronfeydd wrth Gefn cyffredinol yn darparu rhwyd diogelwch ar gyfer digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau. Pe na fyddai Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer Covid-19 yna byddai'r Cyngor wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i gwrdd â chostau delio gyda'r pandemig. Er na phennwyd swm penodol fel isafswm ar gyfer cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol, y meincnod answyddogol cyffredinol yw 5% o'r gyllideb refeniw net, ond mae hyn hefyd yn ddibynnol ar sefyllfa ariannol pob Cyngor a'r risgiau a wynebant. O gymryd i ystyriaeth y defnydd gwirioneddol o gronfeydd wrth gefn, a'r defnydd a gynlluniwyd ar eu cyfer (gan gynnwys ariannu cyfran o wariant cyfalaf 2021/22), a'r rhagolwg yn Ch3 y bydd y gyllideb gyfalaf yn tanwario, amcangyfrifir y bydd gan y Cyngor Gronfeydd wrth Gefn Cyffredinol o £7.526m ar 31 Mawrth 2021.


DRAFT

- Er nad oes unrhyw arwyddion ynghylch setliadau yn y dyfodol, tu hwnt i 2021/22, mae nifer o ffactorau a allai ddylanwadu ar gyllido yn y dyfodol e.e. effaith barhaus y Pandemig a Brexit, yn ogystal ag etholiadau'r Senedd yn 2021 a'r etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022. Yn y dyfodol, gobeithir y bydd modd i Lywodraeth Cymru ddarparu sicrwydd hirdymor er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn fwy effeithiol nac y mae'r broses gosod cyllideb flynyddol bresennol yn ei ganiatáu.

**3.2 Adroddiad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad a oedd yn darparu dadansoddiad o'r negeseuon o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gynigion Cyllideb cychwynnol yr Awdurdod ar gyfer 2021/22, fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith, ac a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng 19 Ionawr a 2 Chwefror 2021 (Atodiad 2)**

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol bod yr ymarfer ymgynghori eleni wedi dilyn patrwm tebyg i ddigwyddiadau ymgynghori blaenorol a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond eleni rhoddwyd mwy o bwyslais ar dderbyn ymatebion electronig oherwydd yr amserlen fyrrach a orfodwyd ar y Cyngor gan Lywodraeth Cymru ac effaith y pandemig a oedd yn golygu nad oedd modd cynnal cyfarfodydd cyhoeddus. Derbyniodd y Cyngor 600 o ymatebion electronig yn ogystal â gohebiaeth trwy e-bost. O ystyried bod yr ymgynghoriad eleni ar agor am bythefnos yn unig, mae hwn yn ymateb priodol gan drigolion Ynys Môn, ac yn un a groesewir, ac mae'n cymharu'n dda â nifer yr ymatebion i brosesau gosod cyllideb flynyddol blaenorol a ddenodd oddeutu 500 o ymatebion ar gyfartaledd, ac eithrio 2019/20 pan dderbyniwyd dros 5,000 o ymatebion i'r broses gosod cyllideb.

Rhoddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad grynodeb o brif ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus fel a ganlyn -

- Nid oedd y mwyafrif (bron i 9 o bob 10 o bobl) a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig i gynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor (ar ben y 2.65% a glustnodwyd eisoes fel cynnydd blynyddol) er mwyn ariannu'r gweithgareddau a nodwyd yn yr ymgynghoriad.
- O ran blaenoriaethu'r gweithgareddau a/neu Wasanaethau hynny, roedd y mwyafrif o'r rheiny nad oeddent yn dymuno gweld cynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor (244 neu 45.69%) yn credu na ddylid gwneud unrhyw fuddsoddiad ac y dylai'r Cyngor barhau fel y mae a pheidio a gwneud buddsoddiad ychwanegol.
- Mewn perthynas â'r cynigion yn ymwneud â chynhyrchu incwm, roedd rhaniad o 60:40 yn erbyn cynnig i gynyddu ffioedd parcio mewn lleoliadau arfordirol. Derbyniwyd gohebiaeth gan Glwb Hwylio a Chwaraeon Dŵr lleol a oedd mynegi pryder y gallai cynyddu ffioedd parcio effeithio ar y nifer sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Clwb yn ogystal â gostwng ffynhonnell o incwm tymhorol i'r Cyngor. Os cyflwynir peiriannau tocynnau newydd mwy modern yn ôl y bwriad, yna mae'r Clwb yn awgrymu y dylid cyflwyno cynllun disgownt teyrngarwch ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio'r maes parcio yn rheolaidd.
- Roedd mwyafrif bychan (51.55%) o blaid y cynigion ar gyfer cyllid cyfalaf dros y 12 mis nesaf.
- Mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch ymhle ac ar beth y dylai'r Cyngor fuddsoddi dros y 12 mis nesaf, roedd yr ymateb mwyaf (69) yn ymwneud â chynnydd yn y Dreth Gyngor a nodwyd bod y cynnydd yn anheg gan ystyried y tâl newydd ar gyfer casglu gwastraff gardd a gwnaed awgrymiadau ynghylch cynyddu'r dreth ar gartrefi gwyliau.
- Roedd yr ymateb i ddarparu Chromebooks i ysgolion yn gadarnhaol a chafwyd ymateb cadarnhaol i wneud gwaith ychwanegol ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd. Roedd nifer o ymatebwyr eisiau gweld gwelliannau i'r ffyrdd ar Ynys Môn ac roedd sawl un arall yn awyddus i weld cynnydd yn nifer y llwybrau beicio a cherdded. I raddau llai, gwnaed pwyntiau ynghylch argaeledd cartrefi fforddiadwy ar gyfer prynwyr tro cyntaf, darparu



DRAFT

biniau baw ci ar draethau, gwella trefi yn arbennig mewn perthynas â Chaergybi; darparu cymorth i fusnesau bach, gweithgareddau twristiaeth, buddsoddi mewn mwy o gyfleoedd swyddi a chyllido gwelliannau amgylcheddol.
- Roedd y Fforwm Cyllid Ysgolion, a gyfarfu'r dydd Mercher blaenorol, yn gyffredinol fodlon â'r cynigion cyllideb ond nododd y byddai'n dymuno gweld cynnydd yn y gyllideb ddatganoledig i ysgolion yn 2022/23 a thu hwnt.

Canolbwyntiodd y drafodaeth lawn a ddilynodd ar y prif bwyntiau canlynol -

- Roedd y Cynghorydd Alun Roberts yn pryderu am broblemau cudd Covid-19 a amlygwyd gan waith ymchwil, yn arbennig effaith cyfyngiadau'r cyfnod clo ar les plant a'u teuluoedd. Wrth ddyrannu adnoddau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gofynnodd a roddwyd ystyriaeth i gynnydd posib mewn atgyfeiriadau i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wrth i ysgolion a'r gymdeithas ailagor ac a oedd y gyllideb arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ddigonol i ddelio â chynnydd yn y galw a'r llwyth gwaith. Wrth gydnabod y pwynt, eglurodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, bod y mater yn destun trafodaeth genedlaethol ac yn faes blaenoriaeth i Aelodau Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol cynghorau ledled Cymru sydd yn galw ar y cyd am ddull cenedlaethol ar gyfer adfer yn y maes Plant a Theuluoedd. Mewn perthynas â digonolrwydd cyllideb y gwasanaeth ni ellir meintioli'r broblem o ran faint o blant a theuluoedd y mae cyfyngiadau Covid wedi effeithio arnynt ac mae'n anodd rhagweld yr effaith ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn i'w gynorthwyo i gwrdd â chynnydd yn y galw am wasanaethau pe byddai angen.
- Cyfeiriodd nifer o aelodau at y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd parcio mewn lleoliadau arfordirol. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y cyfiawnhad am y cynnydd sylweddol yn y ffi am barcio car a threlar am hyd at 12 awr (i fyny o £6 i £20); manteision cyflwyno system dymhorol lle codir ffioedd is, neu ddim ffioedd o gwbl, yn ystod y gaeaf, cysoni ffioedd ar draws yr holl feysydd parcio arfordirol fel bod pob un ohonynt yn cynnig yr opsiwn i barcio am awr neu ddwy awr, a'r trefniadau gorfodi.

  Wrth ymateb, dywedodd y Cynghorydd R.G. Parry, OBE, FRAgS, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i ffioedd parcio canol tref ac y byddai costau tocynnau parcio blynyddol yn aros yr un fath. Roedd o'r farn bod y cynnydd arfaethedig yn y ffioedd parcio mewn ardaloedd arfordirol yn rhesymol, yn enwedig o gymharu ag awdurdodau eraill a chan fod yr Awdurdod yn cynnig opsiwn i barcio am awr hefyd, yn wahanol i nifer o awdurdodau eraill. Er bod cynnydd uwch yn cael ei argymell ar gyfer parcio car a threlar, rhaid ystyried bod rhai treleri, oherwydd eu maint, yn defnyddio 2 neu 3 lle parcio.

  Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ychydig o gyd-destun i'r cynigion ac eglurodd fod y Panel Herio Cyllideb wedi canfod nad oedd yn bosib gweithredu arbedion yn y cyllidebau priffyrdd a chynnal a chadw adeiladau. Felly, oherwydd rhai o'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth, ac yn benodol mewn perthynas â'r contract casglu gwastraff newydd, roedd yr opsiwn mwyaf ymarferol yn ymwneud ag edrych ar ffyrdd o gynhyrchu incwm parcio ceir ychwanegol a fyddai'n cael ei arwain, i'r perwyl hwnnw, gan Grŵp Llywio. Ystyriodd y grŵp nifer o opsiynau gwahanol ac yn y diwedd roedd y dewis rhwng dau opsiwn, sef cynhyrchu £50k o incwm ychwanegol drwy gynyddu ffioedd parcio yn y meysydd parcio canol tref neu gynhyrchu £100k o incwm ychwanegol drwy gynyddu ffioedd parcio yn y meysydd parcio arfordirol; roedd cefnogaeth gref gan y grŵp i'r ail opsiwn. Bwriadwyd rhoi rhai o'r cynigion ar waith yn ystod haf 2020 ond roedd yn anodd addasu peiriannau tocynnau parcio ar y pryd oherwydd Covid-19. Erbyn hyn mae'n bosib talu dros y ffôn. Mewn perthynas â gorfodaeth, mae gan y gwasanaeth 4 Swyddog Gorfodi gyda thri ohonynt yn swyddi llawn amser ac mae un swydd wag. Bydd y swydd wag yn cael ei llenwi gan ddau

swyddog tymhorol yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf, gan gynnig mwy o hyblygrwydd i'r gwasanaeth a chaniatáu iddo ymateb yn well i alwadau gyda'r nos ac ar y penwythnos.

Er y defnyddiwyd ffioedd parcio tymhorol yn y gorffennol, ar hyn o bryd codir yr un ffioedd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o feysydd parcio arfordirol ar gau yn ystod y flwyddyn ac mae'r peiriannau tocynnau naill ai'n cael eu gorchuddio neu eu tynnu gan na fyddent yn gwrthsefyll tywydd gaeafol ac ni wneir digon o ddefnydd ohonynt iddynt dalu am eu hunain. Mae gorchmynion parcio mewn rhai lleoliadau arfordirol yn caniatáu parcio ar y stryd gan leihau'r galw am feysydd parcio. Fodd bynnag, mae cyflwyno ffioedd parcio tymhorol yn opsiwn os yw'r Cyngor yn dymuno. Mewn perthynas â'r ffioedd, mae ffioedd parcio awr a dwy awr ar waith yn y meysydd parcio mewn lleoliadau arfordirol lle mae yna siopau a chyfleusterau eraill sy'n golygu bod mwy o alw am barcio am gyfnod byr. Byddai modd cyflwyno ystod ehangach o ffioedd mewn lleoliadau eraill pe byddai'r galw'n codi.

- Er i nifer o aelodau'r Pwyllgor gydnabod a chroesawu'r bwriad i beidio â chodi prisiau cinio ysgol, roedd y Cynghorydd Dylan Rees yn dymuno gwybod sut fyddai'r gyllideb arfaethedig yn helpu trigolion difreintiedig a llai ffyniannus yr Ynys yn fwy cyffredinol. Yn ogystal, nododd y Cynghorydd Rees nad yw'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn dweud unrhyw beth am ddemograffeg y cyfranogwyr ac y byddai hynny wedi bod yn ddefnyddiol, ac awgrymodd y dylid darparu gwybodaeth am oedran a/neu ardal côd post y rhai sy'n ymateb yn y dyfodol.

  Cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, at Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n rhoi cymorth i bobl ar incwm isel i dalu eu Treth Gyngor a dyna pam ei bod yn bwysig bod y Cyngor a sefydliadau eraill yn codi ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael drwy'r cynllun. Mae'r Cyngor yn darparu cymorth mewn ffyrdd eraill i'r bobl fwyaf bregus drwy fuddsoddi yn y gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt fel bod y gwasanaethau hynny yn parhau i fod yn hyfyw a'u bod ar gael i'r rheiny sydd eu hangen yn y dyfodol.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Bryan Owen at wrthwynebiad y cyhoedd i'r cynnydd arfaethedig o 3.75% yn y Dreth Gyngor (1.1% yn ychwanegol ar ben y codiad blynyddol o 2.65% a glustnodwyd) a gofynnodd a oes lle i ostwng y cynnydd i 2.5% oherwydd bod cynifer o bobl yn wynebu sefyllfa ariannol anodd oherwydd y pandemig ac am fod cynnydd yn y Dreth Gyngor a weithredwyd gan y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod gryn dipyn yn uwch na chwyddiant; ac os nad oedd hynny'n bosib, oni ellid rhewi taliadau Band D. Er ei fod yn cefnogi cynyddu ffioedd parcio gan fod hynny'n deg, gofynnodd y Cynghorydd Owen am eglurhad ynghylch y buddsoddiad arfaethedig mewn TG.

  Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, bod lefel y Dreth Gyngor ar Ynys Môn yn parhau i fod yr ail isaf yng Ngogledd Cymru a'i fod ymysg yr isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, os bydd cyllid ychwanegol ar gael ac os bydd y setliad terfynol yn caniatáu hynny, byddai'n barod i edrych ar gynnydd o 2.5% gan gadw mewn cof hefyd ei bod yn anodd sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu gwasanaethau a chynyddu'r Dreth Gyngor.

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y buddsoddiad arfaethedig yn swyddogaeth TG y Cyngor yn ymateb i'r cynnydd yn y galw i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a'i fod yn cynnwys buddsoddiad refeniw mewn adnoddau staffio ychwanegol i ddarparu'r lefel angenrheidiol o gymorth technegol i gynnal seilwaith a meddalwedd y Cyngor, a buddsoddiad cyfalaf i ddiweddaru systemau'r Cyngor er mwyn diogelu'r Cyngor rhag ymosodiadau meddalwedd wystlo. Mae'r bwriad i ddarparu Chromebooks i ysgolion yn gydnabyddiaeth o'r cynnydd yn y

defnydd o TGCh fel dull addysgu mewn ysgolion sy'n golygu bod rhaid sicrhau fod disgyblion yn meddu ar yr offer er mwyn elwa ar hynny.

Mewn perthynas â'r Dreth Gyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai cyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i 2.5% yn golygu gostyngiad o thua £500k yn incwm y Dreth Gyngor a byddai'n rhaid ei ariannu naill ai drwy ostwng y gyllideb yn ôl yr un swm neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i lenwi'r bwlch. Pe dewiswyd yr opsiwn olaf, dim ond fel gweithred untro y gellid gwneud hynny a byddai'r Cyngor yn wynebu diffyg o £500k ar unwaith yn y gyllideb ar gyfer 2022/23, a byddai'n rhaid cyllido'r diffyg hwnnw drwy ostwng y gyllideb neu drwy gynnydd hyd yn oed yn uwch yn y Dreth Gyngor. Gan fod nifer o bethau ynghylch y gyllideb ar gyfer 2022/23 a thu hwnt yn anhysbys, byddai hyn yn cynyddu'r risg ariannol i'r Cyngor. Byddai rhewi'r gyfradd Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yn arwain at fwlch ariannu hyd yn oed yn fwy, ac yn ogystal, oherwydd y ffordd y cyfrifir y Dreth Gyngor, byddai'n anodd gwneud hynny gan fod y bandiau eraill yn cael eu cyfrifo yn ôl cyfran o Fand D.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Alun Roberts at y pwysau ar Ganolfan Addysg y Bont ac roedd eisiau gwybod a oedd lle i fuddsoddi yn y ganolfan er mwyn cwrdd â chynnydd yn y galw. Gofynnodd y Cynghorydd Roberts am eglurhad hefyd ynghylch argaeledd cyllid ychwanegol ar gyfer cymorth addysgu / dosbarth i gynorthwyo gydag adfer ym maes Addysg a dal i fyny yn dilyn y pandemig.

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod cyllideb arfaethedig 2021/22 yn cyllido 120 o leoedd yng Nghanolfan Addysg y Bont (i fyny o 115 yn 2020/21). Gan fod Pennaeth Canolfan Addysg y Bont wedi cadarnhau mai dyma'r nifer mwyaf o ddisgyblion y gall y ganolfan eu derbyn byddai'n rhaid diwallu unrhyw alw ychwanegol drwy edrych ar ysgolion prif lif neu ddarpariaeth allsirol. Gan fod y galw am leoliadau allsirol gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi gostwng, wrth i fwy o blant sy'n derbyn gofal dderbyn gofal yn lleol gan ofalwyr maeth y Gwasanaeth, mae mwy o sgôp o fewn y gyllideb hon, er bod lleoliadau allsirol yn parhau i fod yn opsiwn drud. Bu Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i helpu'r Cyngor gwrdd â chostau delio gyda Covid-19 ac i ddigolledu am incwm a gollwyd; er y deallir y bydd y gefnogaeth hon yn parhau, ni dderbyniwyd cadarnhad ynghylch swm a ffurf y cymorth ac ni dderbyniwyd unrhyw arwydd hyd yma y byddai dyraniad penodol ar gael ar gyfer Addysg. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynglŷn ag addasu ysgolion prif lif i gwrdd ag anghenion ychwanegol disgyblion, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y gyllideb gyfalaf yn cynnwys cynllun gwerth £1.5m dros 5 mlynedd, ers 2017/18, i wneud addasiadau i ysgolion uwchradd er mwyn caniatáu i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol barhau mewn addysg prif lif.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, a oedd yn adrodd yn dilyn cyfarfod y Panel ar 12 Chwefror, 2021, fod y Panel yn cefnogi'r Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2021/22 a barnwyd bod y ffigyrau yn gadarn, bod y rhagdybiaethau a wnaed yn gadarn a bod yr ymateb i'r pwysau ychwanegol yn rhesymol. Wrth nodi negeseuon yr ymgynghoriad cyhoeddus, roedd y Panel wedi ystyried y posibilrwydd o gyflwyno ffi barcio ostyngol i bobl leol mewn meysydd parcio arfordirol. Mewn perthynas â'r Dreth Gyngor, mae'r Panel yn argymell bod sgôp i edrych ar gynnydd o lai na 3.5% yn y Dreth Gyngor drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd am eglurhad pellach ynglŷn â'r manylion, dywedodd y Cynghorydd Roberts nad oedd y Panel yn teimlo y gallai fanylu ar ffigwr nes bod y tanwariant a ragwelir yng nghyllideb 2020/21 wedi cael ei gadarnhau.



DRAFT

Ar sail yr uchod, cynigiodd y Cynghorydd Bryan Owen bod cynnydd o 2.5% yn y Dreth Gyngor yn cael ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Aled Morris Jones.

Yn sgil y drafodaeth, a chan gydnabod y posibilrwydd y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn hwyrach ymlaen i ystyried opsiynau amgen, cynigiodd y Cynghorydd John Arwel Roberts y dylai'r Pwyllgor gefnogi cynnydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor a fyddai'n cydbwyso'r gyllideb. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Richard Owain Jones.

Yn y bleidlais a ddilynodd, pleidleisiodd y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor o blaid y cynnig am gynnydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor.

**Yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, ac yn dilyn ystyried y negeseuon gan y cyhoedd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac adborth gan y Panel Sgriwtini Cyllid, penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith gynnydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 er mwyn creu cyllideb gytbwys.**

*Torrodd y Pwyllgor am egwyl fer am 11:50yb gan ailgynnull am 12:00yp.*

**4 GOSOD CYLLIDEB 2021/22 (CYLLIDEB GYFALAF)**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses gosod Cyllideb Gyfalaf 2021/22 ynghyd â'r prif faterion a chwestiynau ar gyfer Sgriwtini wrth werthuso cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb gyfalaf gan gymryd i ystyriaeth y prif negeseuon o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y dogfennau a ganlyn ynghlwm i'r adroddiad –

**4.1 Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar gynigion cychwynnol cyllideb gyfalaf 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Ionawr 2021 ac a oedd yn cynnwys datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â sefyllfa cyllideb gyfalaf gychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2021/22; lefel y gwariant cyfalaf; effaith benthyca ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf; costau refeniw parhaus (e.e. cynnaliaeth); pwysau cyllidebol a risgiau, a'r effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol a Chynllun y Cyngor.**

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, bod rhaglen gyfalaf gwerth £36.155m yn cael ei chynnig ar gyfer 2021/22. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, gan fod diffyg o thua £900k yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 y bwriad yw defnyddio'r tanwariant disgwyliedig yn y cyfrif refeniw yn 2020/21 i bontio'r bwlch er mwyn cyflawni'r rhaglen a gynlluniwyd. Mae mwyafrif y gwariant cyfalaf yn 2021/22 yn gysylltiedig â'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) sydd yn cynnal ac yn datblygu stoc dai'r Cyngor.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 drosolwg o broses y gyllideb gyfalaf drwy gyfrwng cyflwyniad gweledol a sylwebaeth lafar ac amlygwyd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn -

- Nid yw lefel y cyllid gan Lywodraeth Cymru, drwy'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chymorth, wedi cynyddu ers nifer o flynyddoedd ac ni ddisgwylir y bydd fawr o newid yn y setliad amodol a'r setliad terfynol.
- Mae strategaeth cyfalaf y Cyngor yn darparu ar gyfer dyrannu cyllid yn flynyddol i fuddsoddi mewn asedau presennol. Felly, mae'r rhaglen yn cynnwys £1m ar gyfer adnewyddu adeiladau ysgol; £60k ar gyfer adeiladau eraill y Cyngor; £1.25m ar gyfer Priffyrdd; £195k ar gyfer adnewyddu cerbydau a £292k ar gyfer uwchraddio asedau TG. Mae dyraniad o £50k ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi'i gynnwys yn y rhaglen hefyd ac mae'r grant yn rhwymedigaeth statudol.
- Mae buddsoddiad cyfalaf o £6.6m wedi'i gynllunio ar gyfer ysgolion newydd (ardal Llangefni – yn amodol ar y penderfyniad terfynol) yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.



DRAFT

- Cyllidir y rhaglen gyfalaf drwy gyfuniad o grantiau allanol, y Grant Cyfalaf Cyffredinol, a benthyca â chymorth a benthyca digymorth (yn unol â'r manylion yn Nhabl 1, paragraff 3.1 yr adroddiad). Cyllidir prosiectau CRT gyda chyllid CRT sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y diben hwnnw.
- Mae prosiectau cyfalaf unwaith ac am byth newydd gwerth £1.105m wedi'u cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22 ac maent yn cynnwys Chromebook ar gyfer ysgolion, ail-wynebu dwy ardal chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi, cynlluniau lliniaru llifogydd ac arian cyfatebol ar gyfer prosiectau datblygu economaidd a llesiant amgylcheddol. Bydd y prosiectau hyn yn cael eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar yr amod bod y tanwariant o £1m yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 yn cael ei wireddu.

**4.2 Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad a oedd yn darparu dadansoddiad o negeseuon o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ynghylch cynigion cychwynnol Cyllideb 2021/22 yr Awdurdod, fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 19 Ionawr i 2 Chwefror 2021. (Atodiad 2)**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod mwyafrif bychan (51.55%) o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus o blaid y cynigion ar gyfer cyllid cyfalaf dros y 12 mis nesaf.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, a oedd yn adrodd yn dilyn cyfarfod y Panel ar 12 Chwefror 2021, fod y Panel yn cytuno â'r cynigion ar gyfer cyllideb gyfalaf 2021/22 ond bod y Panel wedi nodi pryder ynglŷn â chyflwr adeiladau ysgolion ar yr Ynys a nodwyd bod hyn yn broblem hirdymor y mae angen rhoi sylw penodol iddi.

Ar ôl derbyn yr adborth uchod gan y Panel Sgriwtini Cyllid, gofynnodd y Pwyllgor a oedd y dyraniad o £1m a gynlluniwyd ar gyfer adnewyddu ysgolion yn 2021/22 yn ddigonol ac a oes unrhyw arwydd y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu.

Roedd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, yn cydnabod bod stâd ysgolion y Cyngor yn cynnwys adeiladau sy'n heneddio, ac yn arbennig felly ei ysgolion uwchradd, a bydd angen buddsoddi ynddynt yn ystod y blynyddoedd nesaf drwy adnewyddu adeiladau presennol neu ddarparu adeiladu newydd yn eu lle. Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ychwanegol i ddarparu ysgolion newydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod cynnal a chadw'r ystod lawn o asedau'r Cyngor gan gynnwys ysgolion, canolfannau hamdden a phrif adeilad y Cyngor yn mynd i fod yn broblemus yn y dyfodol gan fod y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol yn debygol o fod yn llawer uwch na'r hyn y gall y Cyngor ei fforddio. Er bod strategaeth gyfalaf y Cyngor yn cynnwys moderneiddio ei asedau lle y gall wneud hynny drwy fanteisio ar gyllid allanol os ydyw ar gael, bydd rhaid ystyried rhesymoli asedau'r Cyngor gan y bydd parhau i'w cynnal a'u cadw yn y tymor hir yn her gynyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn am ddoethineb buddsoddi £300k ar ailwynebu dwy ardal chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi, yng nghyd-destun adeiladau ysgol sy'n dirywio, eglurodd yr Aelod Portffolio Addysg bod y gwariant yn diwallu angen uniongyrchol yn yr ysgol.

**Yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, ac yn dilyn ystyried y negeseuon gan y cyhoedd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac adborth gan y Panel Sgriwtini Cyllid, penderfynwyd argymell y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor Gwaith fel y'i cyflwynwyd *(ataliodd y Cynghorwyr Aled Morris Jones a Bryan Owen eu pleidlais).***

## 5 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts bod y Panel, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2021, wedi archwilio'r cynigion ar gyfer y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf am 2021/22 a bod yr adborth yn unol â'r hyn a adroddwyd o dan eitemau 3 a 4 uchod.

### 6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, yn ymgorffori'r Blaen Raglen Waith hyd at Ebrill 2021 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r ddwy eitem ddilynol yn ymwneud â lles staff y Cyngor a chymunedau a monitro effeithiolrwydd y system brofi ac olrhain, y cytunwyd arnynt wedi i'r Pwyllgor graffu ar ymateb y Cyngor i Covid-19, gael eu hamserlennu i gyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno i'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith yn amodol ar amserlennu'r ddwy eitem ddilynol yn ymwneud ag ymateb y Cyngor i Covid-19 i gyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

**GWEITHRED: Y Rheolwr Sgriwtini i ddweddaru'r Flaen Raglen Waith yn unol â'r hyn a nodwyd.**

**Y Cynghorydd Aled M. Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2021

DRAFT

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Alun Roberts, John Arwel Roberts, Nicola Roberts

**Aelodau'r Portffolio**

Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant) Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau) R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) , Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes y Cyngor), Robin Williams (Aelod Portffolio dros Gyllid)

**WRTH LAW**:

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio ac Economaidd)
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
Prif Swyddog Prisio (TDE)
Prif Swyddog Datblygu (THJ)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU**:

Y Cynghorydd Richard Owain Jones, Mr Keith Roberts, Mr Dyfed Wyn Jones (Aelodau Cyfetholedig)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

## 1 DATGAN DIDDORDEB

Gan gyfeirio at eitem 4 ar y rhaglen, dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts ei bod wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwr ar Bartneriaeth Llangefni, y fenter gymdeithasol a fu'n gyfrifol am reoli a rhedeg cwrs Golff Llangefni am gyfnod. Eglurodd fod y Bartneriaeth wedi bod yn ymwneud â'r cwrs golff cyn iddi fod yn gyfarwyddwr.

## 2 ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN GWELLA'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Dros Dro Gwasanaethau Oedolion gan roi crynodeb o'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor eu hystyried.

Rhoddodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd ac Aelod Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol grynodeb o'r prif ddatblygiadau ers i'r Pwyllgor gael ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Medi, 2010 –

- Bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio o fewn y gyllideb ar hyn o bryd a bod Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ar y trywydd iawn i gau'r flwyddyn ariannol ar sail hyn.
- Ym mis Medi, 2020 fel rhan o fenter genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyflwyno cerdyn adnabod ar gyfer gofalwyr ifanc ledled Cymru, dechreuodd y Gwasanaeth weithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a Gweithredu dros Blant i ddatblygu cerdyn adnabod ar gyfer gofalwyr ifanc. Ers hynny mae'r gwaith hwn wedi datblygu fel y nodir yn yr adroddiad ac mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu dull unedig o ddylunio cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru ar ffurf ddigidol, cerdyn ac arddwrn. Bydd y cerdyn adnabod yn cael ei lansio'n ffurfiol yr wythnos nesaf.
- Bod dau o'r Cartrefi Grŵp Bychan a sefydlwyd eisoes wedi cyrraedd eu capasiti llawn, bod gwaith yn mynd rhagddo ar y trydydd a bod cynnig wedi'i wneud ar bedwerydd eiddo gan ddefnyddio cyllid ICF i ddarparu llety i blant y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt.
- Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau cyllid darpariaeth ICF i brynu byngalo ar wahân er mwyn cynnig gwasanaeth gofal dydd gwell i blant ag anghenion cymhleth. Mae eiddo wedi'i nodi ac rydym yn y broses o'i brynu.
- Mae dull "dim drws anghywir" yn cael ei ddatblygu wrth ymateb i les emosiynol ac anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hamlygu gan y pandemig. Mae hyn yn golygu na fydd teuluoedd, plant a phobl ifanc sy'n ceisio cymorth ar gyfer anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol yn cael eu "taflu" o'r naill wasanaeth i'r llall neu'n cael gwybod eu bod yn curo ar y drws anghywir. Lluniwyd cynllun i ddatblygu'r dull hwn ymhellach.
- Comisiynwyd archwiliad annibynnol o Wasanaethau Cymdeithasol Oedolion a bydd yn adrodd ar ganfyddiadau i Banel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae tri thîm Adnoddau Cymunedol yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll bellach ar waith ac oherwydd cyfyngiadau Covid-19, maent yn cyfarfod yn rhithwir.
- Rhoddir diweddariad sefyllfa ar gyfer y ddau brosiect sy'n ceisio cyflawni'r Strategaeth Anabledd Dysgu Oedolion – mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau dydd allanol a'r ddarpariaeth fewnol. Oherwydd Covid 19 mae'r amserlen gomisiynu ar gyfer y ddarpariaeth a gomisiynir yn allanol wedi llithro.
- Mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar ddatblygiad y Rhaglen Rhannu Bywydau. Bydd y prosiect sy'n cael ei ariannu gan ICF yn parhau ond bydd yn cael ei ehangu i gefnogi pobl hŷn,
- Mae'r gwaith o ehangu'r hybiau cymunedol wedi'i ohirio yn ystod y pandemig. Mae elfennau o'r gwaith yn parhau'n rhithwir a cheir enghreifftiau yn yr adroddiad.

DRAFT

Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol, er gwaethaf heriau dyddiol Covid-19, a'r trydydd cyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol a ddaeth i rym ar 19 Rhagfyr, 2020 a'r galwadau digynsail ar staff, fod Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd wedi parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol ac fel y tystia'r adroddiad, maent wedi llwyddo i ddatblygu amryw o brosiectau datblygiadol ac arloesol hefyd. Mae'r Gwasanaeth a'r Cyngor yn falch o'u staff.

Cyfeiriodd Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Oedolion at y Gwasanaethau Dydd Anabledd Dysgu gan nodi, er bod canolfannau dydd anabledd dysgu wedi gorfod cau, eu bod wedi parhau i gysylltu â chleientiaid trwy gyfrwng digidol drwy'r cyfnod. O ganlyniad, wrth ddatblygu ei gynllun adfer, bydd y Gwasanaeth yn ceisio adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig i wneud pethau'n wahanol, gan gydnabod y gall technoleg chwarae rhan mewn cefnogi pobl ag anableddau dysgu. Mae hyn yn cyd-fynd â'r adborth a dderbyniwyd gan gleientiaid ac mae'n un o'r pethau cadarnhaol sydd wedi deillio o'r pandemig.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Richard Griffiths wrth adrodd ar waith Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Panel, er gwaethaf Covid-19, wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd dros y chwe mis diwethaf ar ffurf rithwir a bod cyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer y misoedd nesaf hefyd. Mae'r Panel wedi parhau i dderbyn tystiolaeth o ddatblygiad ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ac yn y tri chyfarfod a gynhaliwyd rhwng mis Hydref, 2020 a mis Ionawr, 2021 mae'r Panel wedi rhoi sylw i berfformiad y ddau wasanaeth dros Chwarteri 1 a 2 2020/21; trefniadau cartrefi gofal yn ystod Covid-19; cynnydd yn erbyn Cynllun Gwella Gwasanaethau Pobl Hŷn; pwysau'r gaeaf ar Wasanaethau Oedolion a diogelu gan gyfeirio'n benodol at drais domestig. Comisiynwyd archwiliad annibynnol o'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a chynhaliwyd adolygiad Archwilio Mewnol o'r Panel Rhianta Corfforaethol a daeth i'r casgliad y byddai manteision o sicrhau bod y Panel yn cyd-drefnu'n agosach â Phanel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mewn ymateb i bwyntiau a wnaed a chwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor –

- Teimlai'r Aelodau fod perfformiad ariannol Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn galonogol hyd yma eleni, ond roeddent yn derbyn y gallai'r ddau wasanaeth wynebu mwy o bwysau wrth symud i'r flwyddyn ariannol newydd wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio a'r galw gynyddu. Yng ngoleuni hyn ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch gwydnwch ariannol y gwasanaethau a'r gallu i ymdopi wrth symud ymlaen a ph'un ai a oedd unrhyw arferion da'n deillio o'r pandemig y gellid eu cymryd i liniaru'r pryderon yn hyn o beth.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddai pecyn cymorth gwerth £206m ar gael i helpu cynghorau i dalu costau ychwanegol yn sgil delio â'r pandemig ar gyfer chwe mis cyntaf 2021/22, a hynny drwy hawliadau i'r gronfa caledi. Er ei bod yn anodd rhagweld lefel y galw ac felly'r costau tebygol wrth symud ymlaen, mae profiad Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi dangos, wrth i'r cyfyngiadau symud lacio, fod atgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi cynyddu a bod y tanwariant sylweddol a ragwelir yn Chwarteri 1 a 2 y flwyddyn ariannol gyfredol wedi lleihau wrth symud ymlaen i Chwarteri 3 a 4. Wrth ddychwelyd i ryw normalrwydd, efallai y bydd y cyllidebau ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd yn annigonol ac yn arwain at orwariant, felly mae cael cronfeydd wrth gefn yn bwysig.

  O ran arfer da, mae'r ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg yn ystod y pandemig wedi sicrhau manteision penodol, er enghraifft mae nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n mynychu cyfarfodydd adolygu ac asesu a gynhaliwyd yn rhithwir wedi cynyddu am eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus cyfarfod fel hyn ac wedi arfer â'r dechnoleg. Nod y

Gwasanaeth yw manteisio ar hyn drwy wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg, er enghraifft y cymorth a ddarperir i ofalwyr maeth.

Yr her wrth symud ymlaen fydd cydnabod effeithiau'r pandemig ar oedolion a phlant a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei baratoi yn unol â hynny i'r cyfnod adfer. Mae rhai o'r prosiectau arloesol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad e.e. prosiect iechyd meddwl Dim Drws Anghywir yn gosod y sylfeini ar gyfer adferiad ac mae mesurau lliniaru pellach wedi'u rhoi ar waith drwy sefydlu ac ehangu'r hybiau cymunedol.

- Cyfeiriwyd at y cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc a gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch y manteision y disgwylir iddynt eu cynnig.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y cerdyn adnabod yn gynllun cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddatblygir fel partneriaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr ac awdurdodau lleol i helpu i sefydlu statws pobl ifanc fel gofalwyr a'i gwneud yn haws iddynt gael cymorth yn unol â hynny. Ar sail yr adborth a gafwyd, dywedodd gofalwyr ifanc y byddai'n well ganddynt gael cerdyn adnabod digidol ac felly gyda sêl bendith Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, mae Ynys Môn a Gwynedd yn treialu'r opsiwn hwn fel rhan o'r broses o gyflwyno cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc ledled Cymru a datblygwyd ap at y diben hwnnw.

- Cyfeiriwyd at yr archwiliad annibynnol o Wasanaethau Cymdeithasol Oedolion a'r rhesymau dros ei gomisiynu.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd yr archwiliad annibynnol yn cyflawni swyddogaeth cyfaill beirniadol ac yn rhoi dadansoddiad manwl o systemau, prosesau a gweithdrefnau yn y Gwasanaethau i Oedolion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben a bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n amserol ac yn ymatebol heb eu llesteirio gan fiwrocratiaeth na dyblygu. Bydd yr archwiliad yn rhoi trosolwg manwl i'r Cyngor o faes gwasanaeth sy'n gymhleth a bydd yn darparu argymhellion clir y cytunwyd arnynt o ran meysydd penodol y mae angen i'r Gwasanaeth ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella canlyniadau i'r defnyddiwr gwasanaeth.

- Gan gyfeirio at y cynllun Dim Drws Anghywir, nododd y Pwyllgor fod y straen ar iechyd meddwl a gofal cymdeithasol i blant yn cael ei gydnabod ac y rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol mewn angen dros y misoedd nesaf. Cyfeiriwyd hefyd at dystiolaeth o blant ysgol yn ceisio cael mynediad at wasanaethau meddygon teulu oherwydd problemau iechyd meddwl. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i allu ymateb i'r angen ychwanegol newydd hwn a bod y cynllun ar gyfer datblygu Dim Drws Anghywir yn ddigonol ac yn galluogi'r Gwasanaeth i symud yn gyflym i ddelio â'r cynnydd posibl yn y galw.

  Wrth gydnabod heriau'r misoedd nesaf, dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd y Gwasanaeth yn atgyfnerthu ei ddull a'i arfer presennol o ran y berthynas waith dda sydd ganddo ag ysgolion a gyda'r Gwasanaeth Dysgu, yn enwedig o ran teilwra a llunio gwasanaethau i ddiwallu'r angen, ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael a defnyddio arian grant yn wahanol i sicrhau bod yr ymateb yn amserol. Cyn y pandemig, roedd y Gwasanaeth wedi comisiynu gwaith ar y cyd â Parabl sy'n rhoi cymorth i unigolion dros 18 oed yng Ngogledd Cymru ag anghenion iechyd meddwl ac, ar sail y dystiolaeth o angen sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig, mae'r Gwasanaeth bellach yn gweithio gyda Parabl i ostwng y trothwy oedran ar gyfer gweld unigolion fel y gall y sefydliad gyfarfod yn rhithwir â phlant a phobl ifanc o dan 18 oed nad ydynt efallai'n yn gymwys i gael ymyrraeth CAHMS ond sydd, serch hynny, angen cymorth. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld teuluoedd yn cysylltu â'r



DRAFT

Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am gymorth na fyddent o reidrwydd wedi gwneud hynny oni bai am y pandemig.

**Penderfynwyd –**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac,**

- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod cynnydd a chyflymder y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 3 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried a'i graffu.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol yr adroddiad oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod Cymru, yn ystod Chwarter 3, mewn cyfnod atal byr cenedlaethol am 2 wythnos ar 23 Hydref 2020 a hefyd mewn cyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol (lefel 4) ar 19 Rhagfyr 2020; mae'r cyfyngiadau symud hyn wedi cael, ac yn parhau i gael effaith ar wasanaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n galonogol nodi bod 88% o'r dangosyddion Perfformiad Iechyd Corfforaethol a gaiff eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn y targed a'u bod yn Wyrdd neu'n Felen gyda pherfformiad arbennig o dda o ran rheoli absenoldeb staff - collwyd 4.69 diwrnod am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn y cyfnod yn erbyn targed o 6.91 diwrnod. Mae'r holl ddangosyddion o dan yr is-bennawd 'symud i wasanaethau digidol' wedi perfformio'n well nag yn y blynyddoedd blaenorol yn ystod y pandemig. Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd Cyfryngau Cymdeithasol i rannu gwybodaeth a cheisio dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiadau yn ystod y pandemig – mae sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor wedi gweld cynnydd o 8,500 o ddilynwyr o ddiwedd Chwarter 3 2019/20. Ar hyn o bryd mae 15 dangosydd Rheoli Perfformiad (33%) y mae'r gwaith o gasglu data ar eu cyfer naill ai wedi'i ganslo gan Lywodraeth Cymru neu ddim yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gan fod adnoddau wedi'u hadleoli i ddelio â'r pandemig – darperir manylion y meysydd yr effeithir arnynt yn adran 4.2 o'r adroddiad. Ar gyfer y dangosyddion sy'n weddill a nodir yn Chwarter 3 (27 dangosydd), mae 74% yn perfformio'n uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae wyth dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac fe'u hamlygir fel rhai Coch neu Ambr ar y cerdyn sgorio; mae'r rhain yn ymwneud â Gwarchod y Cyhoedd, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaeth Cynllunio. Ceir gwybodaeth esboniadol yn yr adroddiad ynghyd â mesurau lliniaru arfaethedig. Dylid nodi, fodd bynnag, fod adborth gan asiantau cynllunio lleol yn dangos mai Gwasanaeth Cynllunio Ynys Môn yw'r unig un yn y rhanbarth sy'n parhau ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth mor agos i'r arfer â phosibl.

Cyfeiriodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid at rôl allweddol Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cyngor yn ystod y pandemig ac eglurodd fod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y perfformiad gwell o ran rheoli absenoldeb staff e.e. mwy o ymwybyddiaeth o hylendid a chadw at fesurau oherwydd rheoliadau Covid-19 gan arwain at lai o "heintiau a firysau" fel y gwelwyd yn 2020/21 pan lwyddwyd bron iawn i ddileu ffliw. Dywedodd Rheolwr y Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod yr adroddiad yn cynnwys y cyfnod mwyaf ansefydlog gyda dau gyfnod o gyfyngiadau symud a niferoedd cynyddol wedi'u heffeithio gan Covid 19. Felly roedd yn arbennig o galonogol nodi bod y duedd a welwyd yn Ch3 yn y rhan fwyaf o'r meysydd a nodwyd fel rhai Coch wedi gwella ers Ch2.

Wrth drafod yr adroddiad a chydnabod y cyfraniad a wnaed gan staff i gynnal perfformiad mewn cyfnod heriol iawn, cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol, a chynigiodd Swyddogion a'r Aelodau Portffolio ragor o wybodaeth ac eglurhad -

- Gofynnwyd am sicrwydd o ran lefel y risg gyhoeddus wrth symud ymlaen mewn perthynas â Dangosydd 10 - canran y busnesau risg uchel a oedd yn destun arolygiadau cynlluniedig a arolygwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth Hylendid Bwyd (nodwyd fel rhai Coch gyda pherfformiad o 13% yn erbyn targed o 80% sy'n welliant ar y 10% yn Ch2). Eglurodd Pennaeth Dros Dro Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod archwiliadau bwyd wedi'u gohirio gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ystod y pandemig i gydnabod yr angen i flaenoriaethu'r ymateb i Covid 19; o ganlyniad, mae gallu'r Cyngor i Warchod y Cyhoedd wedi'i ailgyfeirio i'r flaenoriaeth hon. Disgwylir i'r rhaglen arolygiadau ailddechrau ac mae capasiti ychwanegol yn ei le i gefnogi'r gwaith hwn; mae'r Gwasanaeth yn hyderus, wrth i bwysau sy'n gysylltiedig â Covid leddfu, y bydd capasiti pellach yn cael ei ryddhau i ganolbwyntio ar fusnes fel arfer.

- Cyfeiriwyd at ohirio dangosyddion digartrefedd gan Lywodraeth Cymru a gofynnwyd am eglurder ynghylch pam na ellir mesur nifer y rhai sy'n ddigartref a/neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Gofynnodd y Pwyllgor ymhellach am drosolwg o sut mae'r Gwasanaeth Tai yn rheoli digartrefedd ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Gwasanaeth yn parhau i fonitro achosion digartrefedd yn wythnosol; mae'n ymwybodol o nifer y bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod yn ogystal â nifer yr unigolion sydd, drwy ymyrraeth y Gwasanaeth, wedi'u hatal rhag dod yn ddigartref. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ymwybodol o nifer y bobl mewn llety brys ar unrhyw adeg benodol.

  Wrth gydnabod yr ymateb a chael sicrwydd o ymrwymiad y Gwasanaeth i reoli digartrefedd credai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig cael dadansoddiad o'r sefyllfa ddigartrefedd yn lleol er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y mae'r Gwasanaeth yn mynd i'r afael â mater pwysig, a gofynnodd am adroddiad i'r perwyl hwnnw ar gyfer y cyfarfod nesaf.

- Cyfeiriwyd at wella perfformiad o ran rheoli absenoldeb staff a oedd yn rhagori ar y targed. Cydnabuwyd bod hyn yn rhannol oherwydd y ffordd wahanol o weithio wrth orfod ymateb i'r pandemig yn ogystal â ffactorau eraill fel y nodwyd yn y drafodaeth. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y byddai gwersi'n cael eu dysgu yn sgil beth sydd wedi gweithio wrth ymateb i'r pandemig, wrth symud ymlaen i'r normal newydd, ac na fyddai'n dychwelyd i arferion cyn Covid o reidrwydd, yn enwedig o ran trefniadau gwaith ar ôl Covid. Cadarnhaodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid y bydd effaith Covid ar arferion gwaith gan gynnwys ystyriaethau lles ac iechyd meddwl yr holl staff i sicrhau cydbwysedd rhwng gweithio yn y swyddfa a gartref, yn un o'r meysydd a ystyrir wrth gynllunio ar gyfer adferiad a'r normal newydd. Caiff lefelau presenoldeb yn y gwaith eu monitro'n ofalus a chaiff rheolwyr gwasanaeth eu hannog i gynnal sgyrsiau rheolaidd gyda'r staff i sicrhau y gellir delio'n gyflym ag unrhyw broblemau sy'n codi. Edrychir yn ofalus ar unrhyw gamau gweithredu/mesurau a all gyfrannu at wella presenoldeb yn y gwaith.

  **Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r diweddariadau a ddarparwyd gan Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

**CAMAU YCHWANEGOL A GYNIGIR: Y Gwasanaeth Tai i ddarparu data ar reoli digartrefedd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor**

## 4 CWRS GOLFF LLANGEFNI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) ar yr opsiynau ar gyfer dyfodol Cwrs Golff Llangefni yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd adroddiad canlyniadau'r ymgynghoriad yn manylu ar y cyflwyniadau a dderbyniwyd ac roedd ymateb y Cyngor wedi'i atodi.

Rhoddodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd wybodaeth gefndirol i Gwrs Golff Llangefni gan dynnu sylw at y ffaith bod y cyfleuster yn cael ei redeg ar golled o tua £28k y flwyddyn cyn iddo gau, y bu'n rhaid i'r Cyngor roi cymhorthdal ar ei gyfer. Ym mis Mai 2018 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith mewn egwyddor y bwriad i werthu'r cwrs Golff ac ail-fuddsoddi'r elw yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur. Mae'r broses wedi cymryd amser ac fel gyda phob agwedd arall ar gymdeithas, mae Covid-29 wedi effeithio arni. Mae darpariaeth golff dda ar Ynys Môn ac mae'r llain ymarfer yn Llangefni a ail-agorodd ym mis Ionawr 2019 o dan Golf Môn yn boblogaidd a llwyddiannus iawn a bydd yn parhau ar agor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R.G. Parry, OBE, FRAgS, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo at drosglwyddo rheolaeth a chyfrifoldeb am y cwrs golff ym mis Chwefror 2015 i Bartneriaeth Llangefni, menter gymdeithasol yn y dref. Penderfynodd y Bartneriaeth, ar ôl adolygu perfformiad ariannol y cyfleuster a chynnal astudiaeth ddichonoldeb annibynnol, nad oedd y cyfleuster yn hyfyw o safbwynt ariannol yn y tymor hir, felly trosglwyddwyd y cwrs yn ôl i'r Cyngor ac fe'i rhoddwyd o'r neilltu.

Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) at y cyd-destun gan gadarnhau bod y Gwasanaeth, yn dilyn penderfyniad blaenorol y Pwyllgor Gwaith yn 2018 i gymeradwyo mewn egwyddor y bwriad i werthu'r cwrs Golff, wedi bod yn ystyried ei ddyfodol a ph'un ai a yw gwerthu'n briodol ai peidio. Mae nifer y chwaraewyr wedi gostwng ac mae'r costau rhedeg wedi mynd yn anghynaliadwy. Mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried effaith gwerthu caeau chwarae arfaethedig ar iechyd a lles cymuned leol, i ymgynghori â'r gymuned ac ymgyngoreion perthnasol ac i ystyried unrhyw sylwadau a wneir. Yn unol â hynny, cynhaliodd y Cyngor broses ymgynghori ffurfiol rhwng 12 Hydref, 2020 a 30 Tachwedd, 2020 a chynhaliwyd hyn yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015.

Er mwyn paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus, cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod cyfreithwyr allanol wedi'u comisiynu i ddarparu canllawiau a chymorth i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Rheoliadau Caeau Chwarae 2015. Rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020, cwblhaodd Swyddogion yr holl hysbysiadau ffurfiol ar y safle a'r wasg, adroddiad ymgynghori cynhwysfawr a manwl, pob adroddiad ategol ac asesiad effaith yn ogystal â sicrhau bod yr holl lwyfannau TGCh mewnol yn cydymffurfio'n llawn.

Siaradodd y Cynghorwyr Nicola Roberts a Dylan Rees fel Aelodau Lleol gan gydnabod ei bod yn sefyllfa anodd iddynt yn lleol gan nad oedd neb am weld colli ased, ond roeddent yn derbyn bod gostyngiad yn nifer y chwaraewyr yng Nghwrs Golff Llangefni yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi golygu nad oedd y cyfleuster yn hyfyw. Nodwyd hefyd nad oedd Partneriaeth Llangefni a gymerodd y cwrs Golff drosodd yn 2015 yn gallu sicrhau bod y cyfleuster yn hyfyw o safbwynt ariannol ac ildiodd y brydles. Gofynnodd y Cynghorydd Nicola Roberts am sicrwydd ynghylch cynnal yr ymgynghoriad ac os bydd y cwrs Golff yn cael ei werthu, bod yr arian yn cael ei ail-fuddsoddi mewn cyfleusterau hamdden lleol gydag unrhyw ddarpar werthiant o'r cyfleuster ar sail gwerth gorau hyd yn oed os yw hynny'n golygu ei rannu'n wahanol lotiau. Wrth gytuno bod y Cwrs Golff yn anghynaliadwy yn y tymor hir oherwydd nad oedd digon o alw, dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees yr ystyrir bod digon o ddarpariaeth golff ar Ynys Môn ac y bydd y llain ymarfer yn Llangefni yn parhau i weithredu beth bynnag; nid oes gan Chwaraeon Cymru, fel yr unig ymgynghorai statudol i ymateb i'r ymgynghoriad, unrhyw wrthwynebiad i werthu'r

cyfleuster, ac mae'r Awdurdod, wrth gynnig clustnodi'r enillion o'r gwerthiant i wella Canolfan Hamdden Plas Arthur, er budd yr ardal, yn rhoi sylw i iechyd a lles y gymuned.

Ail-bwysleisiodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod y broses ymgynghori wedi bod yn agored i bawb ac i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal yn ddiogel ac yn llwyddiannus, diweddarwyd yr holl hysbysiadau ffurfiol i gynnwys y mesurau ychwanegol a nodir ym mhwynt 2.8 yr adroddiad. Mae'r Cyngor wedi mynd y tu hwnt i ofynion Rheoliad 5 o ran yr amserlenni gofynnol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad i werthu'r cyfleuster, gyda hysbysiad lliw tudalen lawn wedi'i osod mewn papurau newydd lleol a rhanbarthol am 7 wythnos yn olynol o 12 Hydref i 26 Tachwedd, 2020. Gwnaed trosolwg gan gyfreithwyr allanol sy'n cadarnhau bod yr ymgynghoriad yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Pe bai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i werthu'r cyfleuster yna byddai'r enillion yn cael eu neilltuo i'w buddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur a rhoddir ystyriaeth i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'r gwerthiant.

Siaradodd y Cynghorydd Peter Rogers gyda chydsyniad y Cadeirydd, fel aelod a oedd wedi cymryd diddordeb ers tro yng Nghwrs Golff Llangefni; mynegodd ei bryderon ynglŷn â'r ffordd y cynigiwyd gwerthu'r Cwrs Golff gan ofni y bydd y tir yn cael ei farchnata ar adeg pan fo'n edrych ar ei waethaf. Pwysleisiodd fod yn rhaid i'r Cyngor gael y pris mwyaf posibl o'r gwerthiant ar ôl i'r Cwrs Golff wneud colledion am nifer o flynyddoedd, a phwysleisiodd mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai drwy ohirio'r gwerthiant ac yn hytrach edrych ar y posibiliadau i gynnwys y tir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i gael y pris gorau posibl.

Wrth ystyried dyfodol cwrs Golff Llangefni cytunwyd mai gwerthu'r cyfleuster oedd y ffordd orau ymlaen ac o ystyried y sefyllfa ariannol a'r angen i gael gwerth am arian, y dylid gwneud hynny am y pris gorau posibl. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar p'un ai a ddylai'r Cyngor fwrw ymlaen â'r gwerthiant a dechrau marchnata'r safle sy'n cynnwys aelwyd Ffridd a 42 erw ar y farchnad agored fel yr argymhellwyd gan Opsiwn 1 yn adroddiad y Swyddog, neu a ddylid gohirio'r gwerthiant er mwyn rhoi cyfle i ystyried cynnwys y tir o fewn y CDLl ar y Cyd yn yr adolygiad nesaf a fyddai'n gwella ei werth fel tir datblygu.

Mewn ymateb, cynigiodd swyddogion y cyngor canlynol -

- Gan fod y tir y tu allan i'r ffin ddatblygu ar hyn o bryd, nid yw gwerthu'r tir i'w ddatblygu yn opsiwn. Er y bydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei adolygu, byddai newid y ffin ddatblygu yn gofyn am gyfiawnhad cadarn.
- Nid yw tir y cwrs Golff wedi'i osod ers cau'r cyfleuster. Er bod y Cyngor wedi cynnal y cyfleuster drwy dorri glaswellt sydd wedyn wedi'i werthu fel incwm i'r Gwasanaeth Hamdden, nid oes unrhyw waith arall wedi'i wneud rhag amharu ar unrhyw ymgynghoriad neu benderfyniad dilynol o dan reoliadau Caeau Chwarae 2015.
- Byddai gosod cymal gorswm ar werthu'r tir yn rhoi'r hawl i'r Cyngor fel y gwerthwr i gael cyfran o'r cynnydd posibl yng ngwerth y tir yn y dyfodol. Os penderfynir gwerthu'r tir fel tir amaethyddol, byddai cytundeb gorswm yn nodi pe bai'r defnydd tir yn newid o fewn amserlen y cytundeb yna byddai'r Cyngor yn elwa ar ganran o'r cynnydd yng ngwerth y tir ar yr adeg y mae'r newid yn digwydd.
- Bod eiddo Ffridd wedi bod yn wag ers y rhoddwyd y gorau i'w ddefnyddio fel tŷ ceidwad y grin golff; fe'i cadwyd gan ei fod yn ychwanegu gwerth at y safle. Mae'r eiddo mewn cyflwr rhesymol ac ar wahân i rywfaint o waith cynnal a chadw, nid oes llawer iawn o waith gwario arno. Os penderfynir bwrw ymlaen i werthu'r Cwrs Golff yna byddai'r tir a'r eiddo yn cael eu rhannu'n lotiau i sicrhau'r incwm mwyaf posibl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor at yr amserlenni a thynnodd sylw at y ffaith y byddai'n debygol o gymryd peth amser i gymeradwyo cynnwys tir y cwrs Golff o fewn y CDLl ar y Cyd hyd yn oed os gellid cyfiawnhau hynny, sy'n golygu gohirio

DRAFT

buddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur. Ychwanegodd fod y Pwyllgor Gwaith yn awyddus i gynnwys rhyw fath o gafeat wrth werthu'r tir i ddiogelu'r Cyngor o ran sicrhau ei fod yn elwa o unrhyw enillion ar y tir yn y dyfodol.

Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Owen y dylid gohirio gwerthu tir y cwrs Golff er mwyn caniatáu i opsiynau ar gyfer cynnwys y tir yn rhannol neu'n llawn o fewn y CDLl ar y Cyd pan gaiff y Cynllun ei adolygu, gael ei archwilio. Cynigiodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts wrth eilio'r cynnig y gallai eiddo Ffridd gael ei farchnata ar y farchnad agored yn y cyfamser a defnyddio enillion y gwerthiant er budd Canolfan Hamdden Plas Arthur. Cytunodd y Cynghorydd Bryan Owen â'r gwelliant.

Er y gallai ddeall y rhesymeg dros y cynnig, dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees fod cais am dai fforddiadwy yn Nhŷ'n Coed, Llangefni wedi'i wrthod a'i wrthod mewn apêl oherwydd ystyrid bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy yn Llangefni. Cynigiodd y dylid argymell Opsiwn 1 yn adroddiad y Swyddog h.y. bwrw ymlaen i werthu tir y cwrs Golff a dechrau marchnata'r safle (aelwyd Ffridd a 42 o erwau cysylltiedig) i'w werthu ar y farchnad agored i'r Pwyllgor Gwaith; cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd John Griffith.

Arweiniodd y bleidlais ddilynol at bleidlais gyfartal. Cafodd y cynnig gan y Cynghorydd Bryan Owen y dylid ystyried cynnwys y tir cwrs Golff Llangefni o fewn y CDLl ar y Cyd ei gefnogi gan bleidlais fwrw'r Gadair.

**Penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid gohirio gwerthu tir cwrs Golff Llangefni er mwyn rhoi cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer cynnwys y tir yn rhannol neu'n llawn o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd pan adolygir y Cynllun, ac yn y cyfamser y dylid marchnata eiddo Ffridd i'w werthu ar y farchnad agored a'r enillion o'r gwerthiant yn cael eu hail-fuddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur.**

## 5 BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd blaenraglen waith y Pwyllgor hyd at Ebrill, 2021 i'w hystyried.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r flaenraglen waith ar gyfer 2020/21.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaenraglen waith.**

**Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**



DRAFT

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 23 Ebrill, 2021 |
| **Pwnc:** | Ymateb y Cyngor i Covid-19 - Llesiant staff y Cyngor a chymunedau a monitro effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Craffu ar ymateb y Cyngor i Covid-19 drwy warchod llesiant staff y Cyngor a chymunedau ac effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP) ar yr Ynys. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Llinos Medi Huws, Arweinydd y Cyngor |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Annwen Morgan, Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Annwen Morgan, Prif Weithredwr<br>01248 752102<br>Annwenmorgan2@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Pob aelod lleol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:<br>Nodi ymateb y Cyngor i'r pandemig ac yn benodol yr ymateb i warchod llesiant staff y Cyngor a chymunedau ac effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP). |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod ymateb y Cyngor i'r pandemig byd-eang o dan ddarpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, sy'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau penodol o dan y Ddeddf wrth baratoi ac ymateb i argyfwng ar lefel leol. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal

- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae camau pendant a digonol wedi cael eu cymryd i ddiogelu iechyd a llesiant staff y Cyngor yn ystod cyfnod y pandemig?

2. Pa weithgareddau addas ac amserol sydd wedi cael eu darparu i gefnogi llesiant cymunedol ac unigolion bregus yn ystod cyfnod y pandemig?

3. I ba raddau mae'r Cyngor wedi cydweithio'n effeithiol, a chymryd mantais lawn o gyfleon, adnoddau a chapasiti i warchod llesiant pawb?

4. Sut mae'r Cyngor wedi chwarae ei ran yn llawn a chydweithio'n effeithiol i weithredu'r cynllun cenedlaethol Profi, Olrhain a Gwarchod ar yr Ynys?

5. Ym mha ffordd y gallai'r Cyngor fod wedi gwneud mwy neu rywbeth yn wahanol yn ystod cyfnod y pandemig (o bersbectif llesiant a TTP) os o gwbl?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1.0 CEFNDIR / CYD-DESTUN**

1.1 Mae Covid-19 yn glefyd heintus sydd wedi effeithio ar dros 200 o wledydd ledled y byd[1], ac yn parhau i wneud, gan gynnwys y Deyrnas Unedig ers Ionawr 2020 ac yn parhau i fod yn her sylweddol i'r byd cyfan. Felly mae'n wir dweud bod y pandemig wedi cael effaith bellgyrhaeddol, ac yn parhau i gael. Mae'r cyfnod hwn **(rheoli'r ymateb brys i'r Pandemig, y Cyfnod Adfer a dychwelyd yn raddol i'r Normal newydd)** yn gyfnod heriol eithriadol i'r Cyngor a phob sefydliad cyhoeddus arall ar draws Cymru wrth i ni barhau i wynebu heriau argyfwng Covid-19. Mae hyn wedi golygu bod y Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang.

**2.0 Paratoadau'r Cyngor i Ymateb i Covid-19**

2.1 Rhoddwyd Cynlluniau Rheoli Parhau Busnes a Chynlluniau Corfforaethol ar waith gan ddilyn canllawiau cenedlaethol a oedd y cynnwys yr ymyraethau isod:

i. Sefydlu Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng sy'n parhau i gyfarfod yn wythnosol gan reoli busnes arferol a pharatoi ar gyfer y dadgloi a'r cyfnod adfer
ii. Grŵp Atal a Gwyliadwriaeth leol yn cyfarfod yn wythnosol sy'n cynnwys prif bartneriaid allweddol er mwyn ymateb yn rhyng-asiantaethol
iii. Adroddiadau Sefyllfa Wythnosol yn cael eu paratoi yn crynhoi prif benderfyniadau, materion a risgiau
iv. Cyfathrebu mewnol aml ag Aelodau a staff ac yn allanol drwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol i gynorthwyo at warchod iechyd, diogelwch, a llesiant pawb.
v. Cofrestr risg Covid-19 yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'r wythnosol
vi. Adlewyrchu, dysgu, ac adnabod ymarferion da ar gyfer y dyfodol.

**3.0 Sefyllfa a chyd-destun lleol**

3.1 Yn ystod cyfnod y pandemig, mae'r Cyngor wedi delio â sawl her yn gysylltiedig â chlystyrau ac achosion cynyddol, ond wedi llwyddo i ddelio'n briodol ac yn amserol i hyn drwy ymateb aml-asiantaethol. Enghraifft ddiweddaraf yw'r ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn achosion yn ardal Caergybi.

3.1.1 Gwelwyd camau gweithredu cadarn yn cael eu cymryd yn amserol gan y Cyngor gan gynnwys:

- Sefydlu Tîm Rheoli Digwyddiad (IMT)
- Ail-bwysleisio rheoliadau ac ymddygiad yn lleol
- Adolygu achosion ymysg disgyblion a sefyllfa ysgolion
- Cynllun profi torfol yn cael ei roi ar waith:
- Mynychodd dros 800 o unigolion yr MTU yng Nghaergybi
- 1,800 o brofion PCR wedi'u dychwelyd yn dilyn ymweliadau o ddrws i ddrws
- Canolfan Profi Asymtompatig - 290 o brofion hyd yn hyn
- 3,600 o becynnau profi LFD cyflym i ddisgyblion ysgol Uwchradd
- Gorfodaeth rhagweithiol
- Rhannu gwybodaeth a chyfathrebu

3.1.2 O ganlyniad i'r ymateb a'r ymyrraeth aml-asiantaethol, llwyddwyd i reoli'r sefyllfa yng Nghaergybi yn gyflym iawn, gan osgoi ymlediad cymunedol pellach i gymunedau eraill Môn.

**3.2 Ystadegau Presennol Covid-19 ar yr Ynys**

Yn dilyn cyfnod heriol o ddelio â nifer uchel o achosion dyddiol yn Ynys Môn, ac un o'r cyfraddau achosion a'r cyfradd positifrwydd uchaf drwy Gymru, bellach mae'r sefyllfa ym Môn yn dechrau sefydlogi. Gwelir data Môn ar gyfer 18.04.21 isod:

- **4 achos newydd, cyfanswm 2,294. Cyfradd Achosion 8.6 (i lawr 22.8)**

**Statws Achosion Covid-19 Ynys Môn (18.04.21)**

| 7 niwrnod diwethaf | 7 diwrnod blaenorol |
|---|---|
| 6 achos newydd (gostyngiad o 73%) | 22 achos newydd |
| 8.6 fesul 100,000/ 7 niwrnod | 31.4 fesul 100,000/ 7 niwrnod |
| Gostyngiad o 22.8 fesul 100,000/ 7 niwrnod | |
| 543 prawf (gostyngiad o 16%) | 646 prawf |
| Cyfradd positifrwydd- 1.1% gostyngiad o 2.3%) | Cyfradd positifrwydd- 3.4% |

3.3 Er gwaetha'r gwelliant a'r gostyngiad diweddar yn nifer yr achosion, mae'r Tîm Argyfwng a'r Uwch Dîm Reoli yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ddyddiol, gan ystyried effaith llacio'r cyfyngiadau yn ddiweddar a'r ffaith fod holl ddisgyblion Môn wedi dychwelyd i addysg ffurfiol wyneb yn wyneb. Bydd modd adrodd ar y data diweddaraf ar lafar yn y Pwyllgor ar y 23ain Ebrill.

**4.0 RHESYMEG AR GYFER CRAFFU AR Y PWNC**


Mae'r achos dros graffu ar ymateb y Cyngor i bandemig Covid-19 yn un hynod gryf:

i. Yn ystod cyfnod argyfwng, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig ac mae'n hynod bwysig bod Aelodau Etholedig a dinasyddion Ynys Môn yn cael sicrwydd bod y penderfyniadau a wneir yn briodol, yn amserol ac yn dryloyw
ii. Mae model arfer da'r Ganolfan Llywodraethu a Chraffu yn cyfeirio at yr angen i Bwyllgorau Sgriwtini Cynghorau graffu ar drosolwg o ymateb y sefydliad i Covid-19
iii. Yn lleol, mae cylchoedd gorchwyl y ddau bwyllgor yn hwyluso'r broses o osod ffiniau ar gyfer craffu ar y pwnc
iiii. Cafwyd cais gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 14 Medi, 2020 i ddilyn i fyny ar ddwy agwedd benodol o ymateb i Covid-19 sef: Llesiant staff y Cyngor a chymunedau a monitro effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP).

**5.0 Iechyd a Llesiant Staff**

a. Mae iechyd a llesiant staff wedi bod yn flaenoriaeth allweddol yn ystod y pandemig parhaus hwn, gyda nifer o gynlluniau wedi eu rhoi ar waith yn ystod 2020-21.
b. Ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf ym Mawrth 2020, cafodd tudalen Llesiant Gweithio o'r Cartref ei sefydlu'n gyflym er mwyn rhannu gwybodaeth ac adnoddau ynghylch y bygythiad parhaus o'r Coronafeirws, yn ogystal ag iechyd a llesiant yn gyffredinol.
c. Yn ystod y cyfnod hwn, ymwelwyd â'r dudalen hon gyfanswm o 14,163 o weithiau, a hynny gan gyfanswm o 2,691 o ddefnyddwyr. Mae hyn yn amlygu bod y dudalen wedi cael derbyniad hynod dda a gwelwyd yn glir bod defnyddwyr yn dychwelyd i'r adnodd drwy gydol y flwyddyn.

**Tabl 1**




d. Yn ystod Mawrth 2021, cafodd y dudalen ei hailwampio yn Gategori Iechyd a Llesiant sydd nawr yn gartref i 7 tudalen unigol sy'n trafod meysydd penodol o Iechyd a Llesiant, ac sydd wedi cofrestru 134 o ddefnyddwyr ar draws y 7 tudalen yn ystod mis olaf 2020-21. Mae'r adnodd wedi cael ei gyfeirio atoyn rheolaidd yn neges wythnosol y Prif Weithredwr.
e. Cafodd cyfanswm o 21 sesiwn eu trefnu'n gorfforaethol ynghylch meysydd Iechyd a Llesiant megis llesiant ariannol, troseddau casineb, camddefnydd sylweddau, iechyd meddwl yn ogystal â sesiwn cwestiwn ac ateb dreiddgar gyda Dr Dyfrig Ap-Dafydd

ynglŷn â'r brechiadau COVID-19. Mi fynychodd cyfanswm o 223 o aelodau o staff ar draws pob sesiwn. Caiff y rhain eu dadansoddi yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2**

| Cwrs | Sesiynau a Gynhaliwyd | Nifer a Fynychodd |
|---|---|---|
| Seminar Cynllunio Ariannol Canol Gyrfa | 1 | 6 |
| Hyfforddi Atal Twyll | 1 | 30 |
| Cyn Ymddeol | 2 | 6 |
| Sylfaen Llesiant Ariannol | 1 | 10 |
| Llesiant Ariannol – Amddiffyn | 1 | 11 |
| Llesiant Ariannol | 1 | 7 |
| Sesiwn Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb | 3 | 16 |
| Ymwybyddiaeth Camddefnydd Sylweddau | 2 | 11 |
| Cyfnerthu eich Iechyd Meddwl a'ch Llesiant | 1 | 20 |
| Emailogic – Hyfoeseg E-bost a Llesiant | 2 | 44 |
| Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl i Staff | 3 | 23 |
| Llesiant Meddwl yn y Gwaith i Reolwyr | 2 | 18 |
| Dr Dyfrig - brechiad COVID-19 Cwestiwn ac Ateb | 1 | 21 |


f. Yn ogystal mi drefnodd y ddarpariaeth Gofal Cymdeithasol gyfanswm o 7 sesiwn yn ymwneud ag Iechyd a Llesiant, gyda'r cyfanswm presenoldeb yn 62. Roedd y rhain yn bennaf ynghylch Iechyd Meddwl a Gor-bryder. Gweler dadansoddiad yn Nhabl 3.

**Tabl 3**

| Cwrs | Sesiynau a Gynhaliwyd | Nifer a Fynychodd |
|---|---|---|
| Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl | 2 | 12 |
| Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl i-act - Rheolwyr | 1 | 11 |
| Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl i-act - Staff | 1 | 2 |
| Ymwybyddiaeth Gorbryder i Reolwyr | 1 | 13 |
| Ymwybyddiaeth Gorbryder | 2 | 24 |

g. Bu E-Ddysgu'n adnodd amhrisiadwy unwaith eto yn ystod y cyfnod hwn, gyda modiwlau oedd yn bodoli'n flaenorol yn cael eu defnyddio, ynghyd â'r lansiad diweddar o'r modiwlau Ymwybyddiaeth Gorbyryder a Gwydnwch Personol tuag at ddiwedd Chwefror 2021, gyda'r nifer wedi'u cwblhau yn amlwg yn is oherwydd eu lansiad hwyrach o'u cymharu â modiwlau eraill.
h. Mae cyfanswm y nifer a gwblhawyd yn 752 ar draws 6 modiwl yn ystod 2020-21. Caiff y nifer a gwblhawyd eu dadansoddi fesul modiwl yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4**




| | Ymwybyddiaeth Gorbryder / Anxiety Awareness | Ymwybyddiaeth Gyffuriau ac Alcohol / Drug and Alcohol Awareness | Straen Ebost / Email Stress | Ffyrdd o Fyw Iach / Healthy Lifestyles | Rheoli Eich Blaenoriaethau / Managing Your Priorities |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer wedi cwblhau / Number completed | 59 | 205 | 158 | 177 | 106 |

## 6.0 Llesiant Cymunedol a Chefnogaeth i Unigolion Bregus

a. Datblygwyd dogfen arweiniad cymunedol ar Covid-19 a gwybodaeth bwysig arall, gweler y ddolen isod. Mae'r ddolen hefyd yn cynnwys manylion cyswllt cyd-gysylltwyr cymunedol a chwmnïau dosbarthu.

b. Sefydlodd y Cyngor linell ffôn frys benodedig â 9 dewis, sydd ar gael 7 diwrnod yr wythnos. Mae Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn ein cymunedau ar gael trwy ein Pwynt Mynediad Sengl yn y gymuned a hwylusir gan Medrwn Môn ynghyd â chefnogaeth oddi wrth Gyd-gysylltwyr Asedau Lleol (asiantau cymunedol sy'n cysylltu unigolion ag asedau a gwasanaethau cymunedol – elfen allweddol o wasanaeth rhagnodi cymdeithasol Medrwn Môn).

c. Mae tîm hawliau lles mewnol y Cyngor, Canolfan O'Toole, wedi ymdrin â 2,200 o ymholiadau ers y cyfyngiadau symud. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at fanciau bwyd, cyngor ar fudd-daliadau ac arweiniad ar a chyfeiriadau at asiantaethau arbenigol eraill, yn fewnol a hefyd yn allanol.

d. Cadwodd Gweithwyr Cymdeithasol, y Tîm o Amgylch y Teulu, Dechrau'n Deg a Gweithwyr Ieuenctid mewn cysylltiad â phlant bregus a'u teuluoedd, gan ddanfon Prydau Ysgol am Ddim, rhannu mygydau gyda phlant a phobl ifanc, darparu bagiau gweithgareddau (dros 600 i gyd) a chynnig cyngor ac arweiniad i rieni oedd yn ei chael hi'n anodd trwy gydol y cyfnod hwn.

e. *"Bu cydweithio effeithiol rhwng adrannau mewnol yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol ers dechrau'r pandemig. Mae staff o'r Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg wedi gweithio'n agos â staff addysg (gan gynnwys staff ysgolion) wrth gefnogi dysgwyr bregus i ddarparu gwasanaeth buddiol i wella dysgu a lles disgyblion."*

Adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion – Ionawr 2021 - Estyn

f. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi gwneud dros 2,000 o alwadau ffôn i'n Pensiynwyr a'n tenantiaid Tai Gwarchod, gan eu rhoi mewn cysylltiad yn aml â gwasanaethau eraill oedd yn benodol i unrhyw rai o'u hanghenion ar y pryd.
g. Ffoniodd Cyswllt Môn a Gwasanaethau Oedolion yr holl drigolion ar y rhestr warchod, oedd yn golygu ychydig o dan 4,000 o bobl.
h. Roedd 37 o dimau gwirfoddol lleol (Timau Ardal) yn defnyddio 860 o wirfoddolwyr yn ystod y don gyntaf o Covid-19. Mae'n bwysig ychwanegu bod troeon da yn parhau i ddigwydd er gwaethaf llacio'r mesurau cyfyngiadau symud; fodd bynnag mae gennym garfan o drigolion ym Môn sydd wedi colli hyder o ran mynd allan a mynd i siopa.
i. Creodd Menter Môn fap rhyngweithiol o fanylion pob Cyd-gysylltydd Gwirfoddol a rhannwyd y map yn eang. Hyd yma, mae'r map rhyngweithiol yma wedi denu 45,579 i edrych arno. Mae hyn yn cynnwys dynes o Ganada oedd yn ceisio sefydlu cefnogaeth leol ar gyfer ei mam oedrannus ym Môn.
    a. https://www.google.com/maps/d/u/0/viewer?mid=1PP3U6cU6ay2N5oOzWcRVt0aE2uPs2UmN&ll=53.293487875745875%2C-4.377189449999945&z=11

j. Mae Timau Ardal bellach yn rhan o gynllun yr ynys i hyfforddi Gwirfoddolwyr ar draws yr ynys, cynllun a dreialwyd yn wreiddiol ym Mechell a Thwrcelyn. Bydd gwirfoddolwyr yn cael cynnig hyfforddiant mewn GDPR, Diogelu pan fo Cam-drin Domestig. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei roi gan dîm AD CSYM trwy e-ddysgu. Gellir defnyddio'r hyfforddiant i gefnogi a gwella gwybodaeth a sgiliau gwirfoddolwyr mewn meysydd allweddol megis diogelu. Gall hefyd gefnogi gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn ddi-waith ers amser hir i gasglu gwybodaeth a sgiliau newydd er mwyn gwella eu rhagolygon am yrfa. Credir y bydd hyd at 600 o wirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi trwy system hyfforddi e-ddysgu CSYM.
k. Paratowyd a danfonwyd dros 2,000 o becynnau bwyd gan fanciau bwyd.
l. Danfonwyd 3,000 o becynnau Neges i drigolion bregus Ynys Môn.
m. Prosiect Ciando Menter Môn: prosiect i ddarparu llety i weithwyr allweddol yng Ngwynedd a Môn dros dro i leihau'r risg iddynt heintio eu teuluoedd yn ystod y firws. Lleolwyd 47 o weithwyr a chofrestrwyd cyfanswm o 144 llety. Gweithiwyd mewn partneriaeth â'r cwmni llety Dioni. Mae gwerthusiad yn cael ei wneud ar hyn o bryd.
n. Banc Amaeth / *Agri Bank* Menter Môn: 11 wedi cofrestru, ac mae un tyddyn yng Nghaergybi wedi medru manteisio ar y cynllun cneifio defaid oherwydd bod y ffermwr yn sâl.
o. Selog Menter Môn: 12 pecyn adnoddau yn cynnwys taflenni gwaith ac atebion, 37 clip fideo i gefnogi'r gweithgareddau, safle Facebook a grëwyd i rannu'r cynnyrch â rhieni - 620 o ddilynwyr, a 926 o ddilynwyr ar Trydar. Mae'r gwaith wedi ei ffrydio yn genedlaethol trwy'r Hwb, ac mae tystiolaeth o'i ddefnydd y tu hwnt i Fôn.
p. Cyflwynwyd pum prosiect arloesol lles unigolion wedi'u hanelu at wahanol grwpiau, yn cael eu harwain gan y Gwasanaethau Tai mewn cydweithrediad â gwahanol bartneriaid. Cafwyd cyllid trwy ymdrechion Medrwn Môn o wahanol ffrydiau grant gan gynnwys y Loteri Genedlaethol. Roedd y grwpiau yn cynnwys plant ag anableddau, oedolion ag anableddau dysgu a'r rheiny a gefnogir gan y Grant Cymorth Tai / Plant Gogledd Môn a gyllidwyd gan Magnox / plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant sy'n derbyn gofal /tenantiaid tai cyngor. Roedd pecynnau lles adnoddau garddio neu adnoddau dan do yn cael eu cynnig er mwyn cefnogi lles. Derbyniodd dros 1,000 o breswylwyr becynnau lles ac adroddwyd canlyniadau cadarnhaol. Mae adroddiadau unigol ar gyfer pob prosiect ar gael

trwy'r Gwasanaethau Tai. Trefnwyd dosbarthu pecynnau ar gyfer y prosiectau yma trwy gynllun aml-asiantaeth rhwng Clwyd Alyn a SKY.

q. Datblygodd y Cyngor gylchlythyr Ein Tîm (Our Team) a rannwyd â'n holl bartneriaid, Aelodau Etholedig a phob cyngor tref a chymuned ar hyd a lled yr Ynys. Roedd hyn er sicrhau bod y rhai oedd yn derbyn y cylchlythyr hwn yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd a datblygiadau ddwywaith yr wythnos trwy gydol y don gyntaf. Mae'r cylchlythyr hwn bellach wedi'i newid i fod yn un misol, ond petai trydydd ton gallwn adolygu pa mor aml y bydd y cylchlythyr yn cael ei gynhyrchu. Datblygwyd 16 cylchlythyr Ein Tîm gydol y cyfnod.
r. Cysylltwyd â chyrff cyllid grant a busnesau er mwyn ceisio cefnogaeth ariannol i gynnal y banciau bwyd lleol. Mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn, a llwyddwyd i godi tua £100,000 o gyllid ar gyfer Banciau Bwyd Môn a all ddarparu hyd at 50 tunnell o gyflenwadau brys. Ar sail y lefelau prysuraf, mae digon o gyllid a stoc yn ein banciau bwyd am gyfnod o hyd at 18 mis.
s. Mae'r Cyngor wedi sicrhau taliadau cinio ysgol am ddim ers mis Ebrill 2020, yn ystod y cyfnodau pan oedd yr ysgolion ar gau ac yn ystod gwyliau. Yn ogystal â hyn, mae taliadau'n cael eu gwneud i rieni cymwys os oes disgybl yn gorfod hunan ynysu (mewn achos fod ysgol cyfan wedi cau, neu ddosbarthiadau/blynyddoedd unigol wedi gorfod hunan ynysu). Ar gyfer Pasg 2021, roedd 1,029 o deuluoedd ar gyfer 1,816 o blant yn derbyn taliad o £19.50 yr wythnos ar gyfer pob plentyn, gyda chyfanswm o £35,412 yn cael ei dalu yn wythnosol.
t. Bu i Gyngor Sir Ynys Môn gynorthwyo dros 2000 o fusnesau ar yr Ynys er mwyn sicrhau cefnogaeth ariannol o ganlyniad i bandemig Covid-19. Dosbarthwyd oddeutu £40m o grantiau i fusnesau Ynys Môn.
u. Ar sail aml-asiantaethol ac o dan arweiniad y Grŵp Llywio, mae'r Cyngor yn arwain ar gynllun llesiant byr, canolig dymor a hirach dymor er mwyn diogelu llesiant ein pobl. Bu sawl gweithgaredd yn gyrru ymlaen dros cyfnod y Pasg 2021, sydd yn cynnwys y ddarpariaeth o 250 tê'r prynhawn i bobl dros 50 oed sydd wedi bod ar ben eu hunain dros y cyfnod argyfwng yma.
v. 15 o wirfoddolwyr yn cludo pobl Môn i apwyntiadau'r frechiad
w. 210 o unigolion gydag anghenion iechyd meddwl wedi'w cefnogi.
x. Arian grant gwirfoddoli Llywodraeth Cymru wedi galluogi ni i gefnogi hybiau cymunedol sydd wedi colli incwm yn ystod y cyfnod yma oherwydd canllawiau Covid-19. £450 wedi ei rannu rhwng 39 o hybiau cymunedol ar gyfer costau canolig (bwysig fod y hybiau yma yn gallu ail-agor pan bu canllawiau Covid-19 yn galluogi iddynt wneud oherwydd pwysigrwydd tuag at lesiant ein pobl)
y. Cynllun llesiant yn darparu adnoddau a chefnogaeth i sawl oedran ar draws yr Ynys gan gynnwys ioga yn rhithiol drwy ddarparwr preifat, arian tuag at dechnoleg i hybiau cymunedol
z. Cynllun digidol drwy Medrwn Môn, Gwasanaethau Oedolion a Age Well Gwynedd a Môn er mwyn uchafu sgiliau digidol pobl Ynys Môn. Mae'r cynllun yma wedi ei gyllido gan ICF ac am logi tabled Samsung i 60 o bobl am gyfnod o dri mis. Mae pencampwyr digidol gwirfoddol a swyddogion y Cyngor wedi ei sefydlu er mwyn cefnogi unigolion i uchafu sgiliau digidol er mwyn mynychu hybiau rhithiol a rheoli siopia bwyd neu ei cyllidebau ariannol drwy'r we.
aa. Mae'r cydweithio effeithiol ymysg partneriaid wedi adeiladu ar sylfaen gref, ac yn creu cyfleon pellach ar gyfer y cyfnod adfer a thu hwnt (e.e. gwaith ataliol, adfer cymunedau, ymateb i newid hinsawdd, gwaith gwrth dlodi ayyb).
bb. Mae gwaith statudol wedi parhau o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, (Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd), er mwyn cadw trigolion Ynys Môn yn ddiogel ac isod mae cyfanswm o'r asesiadau a gwblhawyd gan y ddau wasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf. Rydym wedi gweld y galw am asesiadau yn amrywio a bydd gwasanaethau yn monitro hyn wrth symud ymlaen:

| Math o asesiad | Cwblhawyd 19/20 | Cwblhawyd 20/21 | % Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Oedolion – Yr Hyn sy'n Bwysig Rhan 1 (Asesiad Cychwynnol) | 1, 224 | 803 | 41.54% |
| Oedolion – Asesiad Gwaith Cymdeithasol Arbenigol (Asesiad Pellach) | 944 | 724 | 26.38% |
| Oedolion – Adroddiad Asesiad Therapi Galwedigaethol | 502 | 167 | 100.15% |
| Oedolion – Adroddiad Ymholiadau Diogelu | 227 | 281 | 21.26% |
| Plant – Yr Hyn sy'n Bwysig Rhan 2 | 647 | 945 | 46.06% |
| Plant – Asesiad Gwaith Cymdeithasol Arbenigol (Asesiad Pellach) | 743 | 272 | 63.39% |

**7.0 Strategaeth TTP ym Môn**

7.1 Mae'n bwysig nodi fod y systemau TTP yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, a bod model rhanbarthol yn weithredol ar draws 6 sir y Gogledd. Ariennir y system drwy gyllid cefnogol gan Lywodraeth Cymru hyd at 30 Medi, 2021. Mae oddeutu 80 o staff yn gweithio i'r tîm TTP lleol ym Môn sy'n cynnwys Rheolwyr Busnes,Swyddogion Olrhain a Swyddogion Cynghori. Mae rhai o'r staff wedi ei secondio o swyddi craidd (hyd at Medi 2021), ac eraill wedi ei recriwtio o'r newydd.

7.2 Mae dau fath gwahanol o brofion a gynigir ar hyn o bryd sef prawf PCR (profi symptomatig) a phrawf llif unffordd (profi asymptomatig), ond mae trefn mewn lle os bydd prawf llif unffordd yn dod yn ôl yn bositif bydd rhaid i'r unigolyn fynd am brawf PCR. Gellir cymryd hyd at 72 awr i dderbyn canlyniad prawf, ac mae unrhyw gysylltiadau yn cael eu monitor am 10 niwrnod gyda galwad ffôn neu neges destun er mwyn gweld a ydynt yn datblygu symptomau. Cedwir yr holl gofnodion drwy Gymru ar system CRM, a bydd Swyddog Olrhain yn cysylltu ag achos positif yn gofyn iddynt am ynysu am 10 diwrnod a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod unrhyw gysylltiadau yn dilyn y drefn gywir. Gosodwyd targed o gysylltu â 80% o achosion positif a'r cysylltiadau o fewn 24awr, ac mae'r tîm lleol ym Môn yn rhagori'r targed hwn fel y gwelir isod:

**Ystadegau Allweddol (01.06.20 – 19.04.21)**

**Achosion Positif:**

- 2294 o achosion (3.3% o'r boblogaeth)
- 1906 o'r achosion hyn yn gymwys i gysylltu â nhw
- Tîm wedi llwyddo i gysylltu â 99% o'r rhain o fewn 48 awr, sy'n rhagori'r targed.

**Cysylltiadau:**

- 5886 o gysylltiadau (8.4% o'r boblogaeth)
- 5709 o'r rhain yn gymwys i gysylltu â nhw
- tîm wedi llwyddo i gysylltu â 95% o'r rhain o fewn 48 awr, sydd unwaith eto yn rhagori'r targed.
- Cyfanswm o 12% o boblogaeth Môn wedi ynysu dros y cyfnod dan sylw.

| |
|---|
| 7.3 Erbyn hyn, amrywiad y DU neu Caint yw'r amrywiad amlycaf ledled Gogledd Cymru, gyda throsglwyddiad amlycaf yn digwydd o fewn aelwydydd. Mae trosglwyddiad traws-aelwyd yn cynyddu yma ar Ynys Môn, ac mae patrwm clir o achosion yn yr ardaloedd ar hyd yr A55. Ers dechrau'r pandemig Caergybi sydd wedi gweld y cyfradd achosion uchaf, yna Llangefni a Llanfairpwll yn dilyn yn agos.<br><br>**7.4 Edrych Ymlaen**<br><br>Mae'r tîm yn cynllunio ar gyfer 3ydd ton posibl, ac yn ystyried beth fydd y trefniadau ar ôl Medi 2021, ac yn disgwyl am gadarnhad ac arweiniad cenedlaethol i hyn. Mae trefniadau ar y gweill i sicrhau bod cyd-gymorth ar gael i siroedd eraill y Gogledd mewn achos o gynnydd sylweddol mewn achosion er mwyn sicrhau ymateb rhanbarthol effeithiol i'r argyfwng a gwneud y defnydd gorau o'r model rhanbarthol ers lles trigolion Gogledd Cymru. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **23 Ebrill, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

---

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
  - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
  - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
  - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
  - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020

| |
|---|
| lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI Mehefin, 2021→ Tachwedd, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 13/04/21]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Gorffennaf, 2021 (dyddiad i'w gadarnhau)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 (i'w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)- 2020/21 |
| | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 (i'w gadarnhau) | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (14/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21)** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 (2021-22) Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu**

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardaloedd Seiriol / Amlwch**

**Cynllun Rheoli Asedau / Man-ddaliadau**